

Annwyl Fyfyriwr, rydym yn anfon e-bost atoch oherwydd eich bod yn teithio i Goleg Sir Gâr o Orsaf Fysiau Caerfyrddin.

Gan ddechrau o fore Llun, 6 Mehefin 2022 tan ddiwrnod olaf y tymor, bydd eich safle bws yng Nghaerfyrddin yn cael ei adleoli dros dro.

Mae hyn oherwydd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwneud gwaith ffordd yn yr orsaf fysiau rhwng dydd Llun, 6 Mehefin 2022 a dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2022.

Mae manylion yr arosfannau bysiau a adleolwyd a map o'r ardal isod.

Bydd eich bws yn rhedeg i'r amseroedd arferol, felly cynlluniwch ddigon o amser i gyrraedd yr arosfannau bysiau sydd wedi'u hadleoli.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, rhowch wybod i ni: Ffôn 01554 748025 neu 07771 336 532

Manylion am adleoli safleoedd bysiau dros dro yng Ngorsaf Fysiau Caerfyrddin o ddydd Llun, 6 Mehefin 2022

- Bydd Baeau bysus 1, 2 a 3 ar gau dros dro felly bydd bysiau'n cael eu hadleoli, fel y manylir isod.
- Nid yw'r cau hwn yn effeithio ar Baeau bysiau 4 i 10 a byddant yn parhau i weithredu fel arfer.

Arosfannau bysiau yn adleoli dros dro i Heol Awst (Lammas Street)

Bydd bysiau a fyddai wedi bod ym Mae 1 i 3 yn codi ac yn gollwng teithwyr yn yr arhosfan bysiau ar Heol Awst (Lammas Street), y tu allan i westy'r Boar's Head, sydd tua dwy funud i ffwrdd ac wedi'i nodi mewn oren ar y map isod. Mae Gwesty'r Boar's Head yn 120 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AE.

Y gwasanaethau bws yr effeithir arnynt yw:

First Cymru 195 i Pibwrlwyd a Llanelli

First Cymru 197 i Pibwrlwyd a Llanelli

First Cymru X11 i Pibwrlwyd a Llanelli/Abertawe

Col1 i Goleg Sir Gar Graig bore a phrynhawn

Arosfannau bysiau yn adleoli dros dro i'r Baeau bysiau eraill yn yr orsaf fysiau, a ddangosir mewn gwyrdd ar y map isod


Bydd y bysiau Coleg Sir Gâr canlynol yn defnyddio Baeau 4 i 9 o fewn yr orsaf fysiau dros dro:

Col3 Coleg Sir Gâr Rhydaman, Ffynnon Job a Phibwrlwyd –bore a phrynhawn defnyddiwch Bae 9

Col11 Coleg Sir Gâr Rhydaman – bore defnyddiwch Bae 8. Prynhawn defnyddiwch Bae 7 fel a ddefnyddir ar hyn o bryd

Col17 Coleg Sir Gâr Graig –bore a phrynhawn defnyddiwch Bae 9

Col60 Cenarth –bore defnyddiwch Bae 5 a prynhawn defnyddiwch Bae 9



- Baeau 1, 2, 3
- Baeau 4 i 9
- Gwesty'r Boar's Head